Cofnodion cyfarfod 13 Tachwedd 2018 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7:00 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Daniel Williams	Einir Coates	
Casi Roberts	Iwan Huws	
Gruff John	Nerys John	
Aled Emyr	Iestyn Harris	
Wynne Barton - Swyddog Ariannol	Gareth Griffiths - Cynghorydd Sir	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
	Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd. Diolchodd i bawb am eu gwaith ar Sul y Cofio, y bobl oedd yn gyfrifol am stopio'r traffig i'r bobloedd wedi gweithio ar yr arddangosfa yn enwedig y Cynghorydd Casi Roberts. Roedd yn falch iawn o'r holl waith. Ymddiheuriadau - Eifion Williams	
2.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**	
	Ategodd y Cynghorydd Sir eiriau'r Cadeirydd ynglŷn â'r gwaith ar gyfer Sul y Cofio a'r arddangosfa. Dywedodd ei fod wedi derbyn galwad ffôn yn hwyr un noson bod syringes yn y safle bws gwaelod Tafarngrisiau (Safle Bws Perspex). Mae yna drefn gan y Cyngor Sir a'r Heddlu ar gyfer achosion fel hyn ond oherwydd yr amser fe gododd yr eitemau i hun. Mae'n bwysig i adrodd math achosion i 101 neu gydag e-bost. Mae arwydd Hen Gei Llechi ar y chwith wrth fynd i lawr am y safle wedi ei fandaleiddio. Cafwyd gwybod bod Lôn Llwyn yn mynd i dderbyn gwaith ail-wynebu. Mae grant wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru ac mae Cyngor Gwynedd wedi penderfynu defnyddio'r arian ar gyfer gwella ansawdd ffyrdd dosbarth C. Bydd y gwaith yn cychwyn ar y 11 o fis Ragfyr am 5 diwrnod. Bydd sesiwn drop in nos yfory ynglŷn â Chanolfan Bryn Ffynnon. Nid yw yn gwybod beth yn union yw'r cynlluniau. Mae hawl cynllunio wedi ei roi ar gyfer gwelliant i'r fynedfa. Mae problemau yn bodoli ar Fryn Waen ac mae yn siarad â'r Cyngor yn ddyddiol ar gyflwr wyneb y ffordd. Mae Cyngor Gwynedd wedi tynnu yn ôl o gyflwyno llinellau melyn wrth y Ganolfan iechyd ond mae cynllun i osod llinellau melyn ar hyd y ffordd o'r ffordd fawr hyd at y Marina. Mae pobol busnes yr ardal yn teimlo bod eu busnesau o dan fygythiad.	
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	DIM	
4.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
4.1	Cyflwynodd y Swyddog Ariannol gwariant ac adroddiadau'r Cyngor ar gyfer mis Hydref. Derbyniwyd y gwariant ac adroddiadau. Cynigwyd ac eiliwyd fel rhai cywir.	
4.2	Ystyriwyd Polisi 137 y Cyngor a phenderfynwyd byddai'r isod yn cael ei gynnwys: Gyda Phob Cais bydd rhaid cyflwyno: • Y Ffurflen gais wedi ei chwblhau gyda'r unrhyw atodiad perthnasol;	**CLERC**

	• Cyfrifon yn dangos incwm a gwariant am y flwyddyn ariannol ddiweddaraf • Mantolen banc diweddar Y Clerc i newid y ffurflen a chyfarwyddiadau ymgeisio am y grant. Hysbyseb i'w roi ar y wefan bod ceisiadau i fod yn ôl erbyn diwrnod olaf y flwyddyn. Nerys John i gael copi ar gyfer facebook.	
4.3	Gofynnwyd y Swyddog Ariannol os oedd unrhyw newydd ynglŷn â'r anfoneb am y toiledau cyhoeddus cyfeiriwyd at gan y Cynghorydd Sir yn y cyfarfod misol diweddar. Nid oedd unrhyw newydd wedi dod i law hyd yma. Y Clerc i wneud ymholiadau gyda Dafydd Gibbard a hefyd Dafydd Meurig Arweinydd Portffolio Eiddo Cyngor Gwynedd.	**CLERC**
4.4	Dywedodd y Swyddog Ariannol ei fod wedi anfon at DBO ynglŷn â'u llythyr mis diwethaf ynglŷn â chyflwyno hysbyseb ar yr hysbysfwrdd a bod hyn yn groes i SLCC. Nid yw wedi derbyn yr un ohebiaeth yn ei ôl nad ydyw chwaith wedi derbyn adroddiad terfynol ar y cyfrifon.	
5.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL**	
5.1	Cadarnhawyd cofnodion mis hydref fel rhai cywir wedi gwneud fan newidiadau.	
5.2	Gofynnodd y Cynghorydd Iwan Huws os oedd unrhyw adborth yn dod i law ar y ceisiadau cynllunio. Penderfynwyd byddai cynnwys canlyniadau'r ceisiadau ar yr agenda o'r mis nesaf ymlaen.	**CLERC**
6.0	**NEUADD**	
6.1	Dywedodd y Cynghorydd Iestyn Harris bod Dafydd Lowe wedi ei benodi fel Gofalwr. Diolchwyd i Shirley am ei gwaith. Dywedodd y Swyddog Ariannol bod cyflog-mis diwethaf a gwyliau yn ddyledus iddi.	
6.2	Dywedodd y Cadeirydd bod Window Medic wedi gwneud ar olwg o'r ffenestri a bod sawl ffenest o fewn y Neuadd angen sylw oherwydd bod y "vacuum seal" wedi mynd. Mae gwydr y ffenestri yn laminated rhag bod nhw yn torri'n fan os byddai yn cael eu taro gan bêl. Cost yn cynnwys TAW £661.01. Penderfynwyd derbyn y pris a chymeradwy o'r gwaith i gael ei wneud oherwydd roedd anawsterau wedi bod ynglŷn â chael prisiau oddi wrth gwmnïau ffenestri eraill. Oherwydd bod amcan brisiau yn gallu body n fwy na £500 trafodwyd bod angen newid y lleiafswm yma i £1000. Ystyriwyd y bydd angen ei newid yn y llawlyfr yn y cyfarfod blynyddol nesaf.	**DW**
6.3	Penderfynwyd byddai o fudd pe byddai portread o'r Gofalwr yn cael ei roi ar y wefan ac yn y Goriad er mwyn i bobl ddod i'w wybod amdano.	**CLERC**
6.4	Dywedodd y Cadeirydd bod difrod wedi ei wneud i gefn y neuadd ar y tu allan. Oherwydd hyn man angen edrych i mewn i oleuadau gyda sensors, y Cynghorydd Eifion Williams am edrych i mewn os byddai web cam yn gallu cael ei roi a fyddai yn gweithio gyda sustem bresennol y Cyngor.	**DW/EW**

6.5	Manylion wedi ei dderbyn gan BT energy broker - Cynghorydd Aled Emyr i edrych arnynt a chynghori is-bwyllgor y neuadd.	
6.6	Mae cais wedi ei wneud ar gyfer polisi iaith y Cyngor. Penderfynwyd cael Is-bwyllgor polisïau. Y Cynghorydd Iestyn Harris a Cynghorydd Iwan Huws i fod yn aelodau. Polisïau'r Cyngor i gael eu harchwilio ac yna eu gosod ar agen y cyfarfod blynyddol y flwyddyn nesaf er mwyn eu mabwysiadu.	**IH,IH, CLERC**
7.0	**ADRODDIAD COFEB Y CLOC**	
7.1	Dywedodd y Cadeirydd bod 3 bulb wedi ei osod yn y Cloc.	
	Diolchodd unwaith eto i'r rhai a fuodd yn ymwneud a llwyddiant Sul y Cofio, Iestyn, Eifion, Gruff ag Gareth Griffith am y gwaith gyda'r traffig, Nerys am y darlleniad, y Parchedig Jeffrey Hughes am y gwasanaeth, Einir am gyflwyno'r dorch, gwirfoddolwyr am yr holl gacennau a Casi am yr arddangosfa. Roedd y diwrnod cyfan yn llwyddiant ysgubol.	**EW/CLERC**
7.2	Mae'r darn o gelf ar gyfer Sul y Cofio gan Flwyddyn 5 a 6 yr Ysgol Gynradd wedi ei roi i'r Cyngor Cymuned. Penderfynwyd ei osod yn y Neuadd. Y Cynghorydd Casi Roberts i gael pris am ei fframio	
7.4	Mae Len Williams wedi rhoi lluniau o'r pentrefi'r Cyngor Cymuned gyda'r dymuniad bod y Cynghorydd Casi Roberts yn edrych ar eu holau. Mae angen symud y cabinet sydd yn dal y lluniau o'r Neuadd yr Eglwys. Y Cadeirydd am sortio sut i wneud hyn yn y dyfodol agos.	
7.5	Cyfeiriwyd at y rhodd gan Mrs Marianne Jackson Aberpwll tuag at yr arddangosfa. Y Clerc i anfon nodyn o ddiolch.	**CLERC**
8.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
8.1	C18/0934/20/LL – Dymchwel estyniad unllawr cefn presennol a chodi estyniad unllawr cefn newydd - 24 Y Wern Y Felinheli LL56 4TX - DIM GWRTHWYNEBIAD	
8.2	C18/0973/20/LL - newidiadau ac estyniadau - 19 Glan y Môr, Y Felinheli, LL56 4RQ - DIM GWRTHWYNEBIAD	
9.0	**ADRODDIAD Y FYNWENT**	
9.1	Nid yw toriad ychwanegol wedi ei wneud ar y fynwent hyd yma.	**CLERC**
10.0	**ADRODDIAD MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH**	
10.1	Adroddodd y Cynghorydd Nerys John ei bod wedi bod ar safle'r Lon Las ger y cerfluniau Malwod gyda Swyddog Coed y Cyngor Bob Griffiths ac Anwen Lynne ar gyfer plannu coed yn lle'r rhai a ddinistriwyd.	
11.0	**ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU A MEINCIAU**	
11.1	Mae'r cysgodfannau wedi eu glanhau a bod angen talu'r anfoneb. Rhoddwyd adroddiad ynglŷn â'r cysgodfannau gan y Cynghorydd Nerys John.	
11.2	Mae difrod wedi ei wneud i sawl ffenest Perspex y cysgodfannau. Trafodwyd y mater. Y Clerc i wneud ymholiadau ynglŷn â'r cysgodfannau a phroblemau sydd yn deillio o'r Perspex yn cael ei falurio a beth mae cynghorau	**CLERC**

	eraill yn gwneud amdano. Y Cynghorydd Nerys John am edych i mewn i'r opsiwn o baentio'r ffenestri sydd ddim yn wynebu'r bws a'r opsiwn arall efallai o newid y paneli cefn y cysgodfan i fetel e.e. Cwrt Menai.	
11.4	Mae llwybr 17 wedi derbyn arwydd. Y Cynghorydd Nerys John i gysylltu â'r Swyddog Llwybrau am weddill yr arwyddion sydd angen eu codi.	
11.5	Mae wal ar y llwybr tu gefn i Londis wedi dymchwel. Perchennog y tŷ yn stryd Penceunant sydd yn gyfrifol am y wal.	
11.6	Mae defaid o'r cae yn cael ffordd o ddianc i lwybr Cerrig yr Afon. Angen holi'r Cynghorydd Eifion Williams ynglŷn â gwaith ar y ffens ger yr afon ar Lwybr Cerrig yr Afon.	**CLERC**
11.7	Mae gwaith i'r fainc ger Stepiau Cei wedi ei gwblhau.	
12.0	**ADRODDIAD PRIFFYRDD**	
12.1	Cyfeiriodd y Clerc ei bod wedi derbyn ymateb gan Briffyrdd bod archwiliad wedi gwneud o'r biniau halen ar gyfer eu cyflwr, bydd adroddiad yn cael ei dderbyn maes o law. Y Clerc i sicrhau bod y Cyngor yn llenwi'r biniau halen ar gyfer y Gaeaf.	
13.0	**PROSIECTAU**	
13.1	Dywedodd y Cynghorydd Nerys John ei bod yn dal i chwilio am grantiau ar gyfer y Cae Chwarae a bydd yn hoffi os byddai'r eitem yma yn cael ei roi ar yr agenda yn fisol. Dywedodd y Clerc bod holiadur ar gyfer mannau chwarae wedi ei dderbyn. Y Cynghorydd Nerys John i lenwi'r holiadau ar Gaeau Chwarae.	**CLERC/NJ**
13.2	Cyfeiriwyd at fabwysiadau ciosgau BT. Y Clerc I wneud ymholiadau BT ynglŷn â gwneud hyn ar gyfer rhai Lan y Môr a Seilo.	**CLERC**
14.0	**GWYDNWCH CYMUNEDOL**	
	Y Cadeirydd i sicrhau bod holiadur am y prosiect yn cael ei anfon ymlaen.	**DW**
15.0	**TOILEDAU CYHOEDDUS**	
15.1	Cynghorydd Einir Coates i lenwi holiadau ar y Gwasanaeth.	
16.0	**GWEFAN**	
16.1	Sicrhau bod manylion Dafydd Lowe yn cael ei roi ar y wefan. Y Clerc i sicrhau hyfforddiant ar gyfer rheoli hurio'r neuadd drwy'r wefan.	
17.0	**MATERION AMRYWIOL**	
17.1	Cyfarfod olaf Gwrp Defib i'r felin yn cyfarfod nos fory.	
17.2	Y Goeden Nadolig i gael ei gosod ar 1af o Ragfyr.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 22:10	
Llofnod:		**Dyddiad:**